THE WELSH BEEKEEPERS' ASSOCIATION
CYMDEITHAS GWENYNWYR CYMRU

Established/Sefydlwyd 1943 Registered Charity/Elusen Gofrestredig – No/Rhif 509929

Adroddiad Blynyddol

1 Ionawr 2015 i 31 Rhagfyr 2015

Ymddiriedolwyr:

Cadeirydd	Jennifer Shaw (etholwyd CCB 2014)
Is-Gadeirydd	Susan Townsend (ymddiswyddodd 27.06.15)
	Andrew Ryan (etholwyd CCA 7.11.15) – Ymddiriedolwr ers CCB Mawrth 2014
Trysorydd	Margaret Jones (ymddiswyddodd 14.08.15)
	Graham Wheeler (etholwyd CCB 7.11.15) – Ymddiriedolwr ers CCB Mawrth 2014
Ysgrifennydd Cyffredinol	Gwag
David John Bowles	(etholwyd CCB 2014)
Michael Hoyes	(ymddiswyddodd CCB Mawrth 2015)
John Sweet	(etholwyd CCB Mawrth 2015 ymddiswyddodd 13.08.15)
Christopher Clarke	(cyfetholwyd CCA 7.11.15)

Swyddogion:

Llywydd	David Culshaw (etholwyd CCB 2013)
Is-lywyddion	Fred Eckton a Tom Pegg (bu farw 29.07.15)
Ysgrifennydd Aelodaeth	Ian Hubbuck
Ysgrifennydd Cofnodion	Jill Wheeler (ymddiswyddodd 11.09.15) swydd wag ar hyn o bryd
Ysgrifennydd y Cynulliad	Graham Wheeler (ymddiswyddodd 11.09.15) Jill Wheeler (penodwyd 11.09.15)
Ysgrifennydd Arholiadau	Lynfa Davies
Rheolwr y Wefan	Grant Williams
Golygydd	Sue Closs (ymddiswyddodd AGM 2015) Grant Williams (penodwyd 06.02.15)
Is-olygydd	Dewi Morris Jones (bu farw fis Ebrill 2015) Elin Meek (penodwyd 7.12.15)
Swyddog Technegol	Wally Shaw
Swyddog Yswiriant	Susan Townsend (ymddiswyddodd 27.06.15) John Bowles (dros dro)
Swyddog Iechyd a Diogelwch	John Pilgrim
Swyddog Cyhoeddusrwydd a'r Wasg	Swydd Wag

Mae pob un o ymddiriedolwyr a swyddogion CGC yn rhoi ei amser yn wirfoddol heb dderbyn tâl neu fanteision eraill. Mae CGC yn ddyledus i'r gwirfoddolwyr hyn am eu hewyllys da a'u hymdrechion parhaus ar ran y Gymdeithas.

Mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried yr arweiniad a gyhoeddodd y Comisiwn Elusennau ynghylch lles y cyhoedd.

Ein Nodau a'n Hamcanion:

Annog, gwella a hyrwyddo cadw gwenyn ledled Cymru drwy:

- ddatblygu cydweithredu ymysg yr holl wenynwyr ledled Cymru a chyfnewid syniadau a phrofiadau,
- gwella safon cadw gwenyn drwy:
  i. gyhoeddi llenyddiaeth,
  ii. darparu a rhoi cymorth i ddarparu cymhorthion a deunyddiau addysgol am gadw gwenyn,
  iii . annog hyfforddi a chymhwyso gwenynwyr,
- trefnu arholiadau cenedlaethol ar lefelau amrywiol,
- annog y gymuned i gymryd rhan mewn arsylwi a dysgu am wenyn yn ddiogel, a dod i werthfawrogi gwerth gwenyn yn yr amgylchedd.

Gweinyddu

Ceir rhestr lawn o'r cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

Cyfarfu'r Ymddiriedolwyr â Chyngor CGC mewn dau gyfarfod (mis Mawrth a mis Tachwedd) i adrodd ar weithredu'r Tîm Rheoli ac i gael arweiniad gan yr aelodaeth. Cyn y cyfarfod ym mis Tachwedd cynullwyd Cyfarfod Cyffredinol Arbennig o CGC oherwydd i'r Trysorydd a'r Is-Gadeirydd ymddiswyddo ac er mwyn mabwysiadu Cyfansoddiad wedi'i ysgrifennu o'r newydd. Ym mhob un o'r cyfarfodydd hyn roedd o leiaf 80% (15) o Aelod-Gymdeithasau CGC wedi'u cynrychioli ac at ei gilydd mynychodd 84% (16) Cymdeithas o leiaf un cyfarfod. Mae manylion pob un o gyfarfodydd y Tîm Rheoli wedi cael eu cyflwyno i'r aelodaeth yng nghyfarfodydd y Cyngor ym mis Mawrth a mis Tachwedd a chylchredwyd adroddiad interim ym mis Mai 2015. Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor ar 5 Mawrth, 25 Mehefin a 5 Tachwedd yn 2016. Bydd y Tîm Rheoli'n cwrdd o leiaf bedair gwaith yn 2016, gyda'r cyfarfod cyntaf ar 25 Ionawr. Mae'r lleoliad a'r dyddiad ar gyfer cyfarfodydd y Tîm Rheoli'n adlewyrchu argaeledd a chyfeiriadau cartref yr Ymddiriedolwyr fel bod cynifer ag sy'n bosibl yn gallu mynychu a bod cyn lleied ag sy'n bosibl o gostau teithio.

Cafodd Cyfansoddiad wedi'i ailysgrifennu'n llwyr ar gyfer CGC ei orffen yn ystod 2015 ac ar ôl ymgynghori â'r Aelod-Gymdeithasau, mabwysiadwyd y ddogfen hon mewn Cyfarfod Cyffredinol Arbennig ar 7 Tachwedd 2015, fe'i cofrestrwyd gyda'r Comisiwn Elusennau a bellach dyma ddogfen lywodraethu CGC. Mae'r Cyfansoddiad hwn yn cydymffurfio ag arweiniad cyfredol y Comisiwn Elusennau.

Mae gwaith ar y gweill o hyd er mwyn ychwanegu at bolisïau CGC ac er mwyn eu diweddaru. Yn ystod 2015 mae polisïau ar gyfer Caffael a Datrys Gwrthdaro wedi cael eu mabwysiadu. Ar hyn o bryd mae polisïau drafft yn cael eu llunio i gwmpasu cynnwys plant dan oed yng ngweithgareddau'r Gymdeithas, hysbysebu, arweiniad golygyddol a chodau ymddygiad a, phan fyddant wedi'u gorffen, byddant yn cael eu mabwysiadu yn ystod 2016 a byddant ar gael ar wefan CGC. Unwaith eto rydym yn ddiolchgar am wasanaeth y cyfieithwyr sydd wedi cynorthwyo'r Tîm Rheoli i ddarparu dogfennau dwyieithog i wenynwyr yng Nghymru.

Yswiriant: Ymgynghorwyd â brocer yswiriant CGC yn dilyn ymholiad gan Aelod-Gymdeithas o ran y sicrwydd yswiriant a fyddai'n cael ei roi petaent yn derbyn ysgol yn hytrach nag unigolyn fel aelod. Darparwyd amodau'r sicrwydd gan y broceriaid a rhoddwyd arweiniad drafft i bob Cymdeithas sy'n ystyried cynnwys plant o dan oed yn eu gweithgareddau.

Mae sicrwydd Yswiriant CGC yn seiliedig ar nifer o amodau gan gynnwys yr angen am dalu ffioedd y pen yn brydlon. Mae'r Cymdeithasau i fod i dalu ffioedd y pen erbyn 1 Ionawr bob blwyddyn ond rhoddir lwfans os derbynnir yr holl arian dyledus erbyn 31 Mawrth yn y flwyddyn honno. Roedd rhai Cymdeithasau'n hwyr yn talu eu ffioedd y pen ar gyfer 2015 felly roedd sicrwydd yswiriant eu haelodau mewn perygl. Atgoffir Aelod-Gymdeithasau fod angen i'r taliad gael ei wneud yn brydlon.

Ffioedd y Pen ac Yswiriant Clefydau Gwenyn (BDI): Mae gan rai Aelod-Gymdeithasau flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar ddyddiad heblaw am 31 Rhagfyr. Mae hyn wedi arwain at gymhlethdodau o ran niferoedd blynyddol yr aelodau y mae rhai Aelod-Gymdeithasau'n eu datgan ar gyfer Ffioedd y Pen. Fel bod hyn yn eglur, bydd niferoedd yr aelodau'r un fath ag ar ddiwedd y Flwyddyn Ariannol ar gyfer y Gymdeithas Leol unigol yn hytrach nag ar ddiwedd blwyddyn ariannol CGC, 31 Rhagfyr.

Cadarnhawyd bod CGC yn talu'r BDI sylfaenol sy'n rhoi yswiriant ar gyfer tri chwch i bob Aelod Oes Anrhydeddus CGC er mwyn cydymffurfio â rheolau BDI. Cydnabuwyd bod angen y taliad hwn hyd yn oed os nad yw'r Aelod Oes Anrhydeddus yn cadw gwenyn ar hyn o bryd neu os nad yw'n byw yn y DU. Mae'r taliad yn ddyledus gan eu bod yn aelodau o CGC.

Llywodraethu: Yn ystod 2015 mae nifer o ffactorau wedi rhwystro'r Tîm Rheoli wrth redeg busnes CGC o ddydd i ddydd ac yn y pen draw bu'n llyffethair i'w gweithgareddau. Yn gyntaf, mae'r ffaith fod y CCB 2015 wedi methu penodi Ysgrifennydd Cyffredinol a bod pob ymdrech ers hynny i recriwtio rhywun i'r swydd wedi cynyddu llwyth gwaith nifer o Swyddogion er mwyn sicrhau bod y tasgau hanfodol, sydd fel arfer yn rhan o'r swydd, yn cael eu gwneud. Mae'r Ymddiriedolwyr yn ddyledus i Ian Hubbuck, yr Ysgrifennydd Aelodaeth, sydd wedi hwyluso'r gwaith o gylchredeg gwybodaeth o'r Tîm Rheoli i'r Aelod-Gymdeithasau gydol y flwyddyn. Edrychwyd ar brynu gwasanaethau ysgrifenyddol proffesiynol ond byddai cael rhywun i fynychu cyfarfodydd yn costio crocbris.

Ychwanegwyd at y problemau gydag ymddiswyddiadau sydyn Susan Townsend, yr Is-Gadeirydd ym mis Mehefin a Margaret Jones, y Trysorydd a John Sweet, Ymddiriedolwr, ym mis Awst. O dan Gyfansoddiad 2014, a oedd yn rheoli CGC ar y pryd, roedd angen Cyfarfod Cyffredinol Arbennig er mwyn penodi Trysorydd newydd, Graham Wheeler ac Is-Gadeirydd, Andy Ryan. Ni ellid cynnal y CCA cyn dechrau mis Tachwedd ac oherwydd yr oedi hwn nid oedd CGC yn gallu cael mynediad i'w harian am sawl mis. Mae nifer o fesurau wedi'u rhoi yn eu lle er mwyn sicrhau nad yw CGC yn cael ei rhoi yn y sefyllfa hon eto. Prynwyd pecyn cyfrifydda a chyfrifiadur at ddefnydd y Trysorydd, mae pob Ymddiriedolwyr bellach yn llofnodyddion a bydd y cofnodion ariannol yn cael eu cadw yn y cwmwl a bydd gan nifer bach o'r Ymddiriedolwyr fynediad iddynt. Rydym yn ddyledus i'r Ymddiriedolwyr a ddefnyddiodd eu harian personol eu hunain i dalu am wariant hanfodol yn ystod y cyfnod pan nad oedd modd cael mynediad i arian CGC. Roedd hyn yn cynnwys costau mawr fel adnewyddu'r yswiriant blynyddol, ac un rhifyn o gylchgrawn Gwenynwyr Cymru. Mae'r dyledion hyn i gyd wedi cael eu had-dalu bellach o arian CGC.

Pan gytunodd Graham Wheeler i gael ei enwebu fel Trysorydd CGC nid oedd bellach yn gallu bod yn ysgrifennydd i'r Pwyllgor Digwyddiadau. Rydym yn ddiolchgar i Jill Wheeler sydd wedi ymgymryd â'r rôl hon. Ond o ganlyniad nid yw Jill yn gallu bod yn ysgrifennydd cofnodion CGC ac ar hyn o bryd mae'r swydd hon yn wag.

Cafodd Pwyllgor Dysgu a Datblygu ei greu, sy'n cynnwys y System Arholiadau, ac mae eu hadroddiadau wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon. Gwnaed i'r amodau gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Digwyddiadau fod yn fwy eglur fel eu bod yn cynnwys y Pwyllgor Cynulliad gynt.

Cronfeydd Ariannol: Mae'r polisi Cronfeydd Wrth Gefn diwygiedig yn dweud y bydd yr Elusen (CGC) yn cadw cronfa wrth gefn o £10,000 i £13,000. Mae angen y gronfa wrth gefn hon yn ôl y Gyfraith Elusennau i dalu am gostau gweithredol a chytundebol petai'r angen yn codi. Bydd y polisi hwn yn cael ei fonitro o leiaf yn flynyddol. Defnyddir yr arian yng nghyfrif cyfredol HSBC nid yn unig i dalu am gostau rhedeg y Gymdeithas ond hefyd i ariannu amryw o brosiectau fel rhedeg cyrsiau a lledaenu gwybodaeth, drwy amryw o ddulliau, fel y wefan, cyhoeddiadau a llyfrynnau.

Aelodau: Mae gan CBC bedair ar bymtheg o Gymdeithasau cyswllt, gyda chyfanswm yr aelodau yn 1,840. Am ffi flynyddol o £9 y flwyddyn mae pob aelod sy'n cadw gwenyn yn y pedair ar bymtheg o Gymdeithasau cyswllt yn elwa drwy dderbyn pedwar rhifyn o 'Gwenynwyr Cymru' ac Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus a Chynnyrch. Ar hyn o bryd mae tri ar hugain Aelod Unigol o Gymdeithas Gwenynwyr Cymru. Mae dadansoddiad manwl o'r aelodaeth yn dod gyda'r adroddiad hwn.

Mae'n dristwch i CGC adrodd am farwolaethau nifer o gyn-swyddogion a swyddogion presennol y Gymdeithas yn ystod y flwyddyn. Ym mis Ebrill cyhoeddwyd marwolaeth Dewi Morris Jones, golygydd Cymraeg Cylchgrawn Gwenynwyr Cymru ers 1997. Bu farw Tom Pegg, ein His-Lywydd ers 2013, ym mis Awst. Roedd Tom yn gefnogwr selog i bob un o ddigwyddiadau CGC ers tro byd a gwelir ei eisiau'n fawr. Bu farw Pam Gregory, cyn Arolygwr Gwenyn Rhanbarthol, Ysgrifennydd CGC, Ysgrifennydd Arholiadau ac aelod anrhydeddus CGC ym mis Hydref. Roedd Pam yn wenynwr dylanwadol iawn a llywiodd wenynwyr Cymru drwy'r dyddiau cynnar pan ddaethpwyd o hyd i varroa am y tro cyntaf yng Nghymru. Roedd Pam yn aelod amlwg o 'Bees Abroad' a gwnaeth CGC gyfraniad i'r elusen honno er cof amdani. Ysgrifennodd Pam nifer o lyfrau sydd ar gael yn rhwydd ac a ddefnyddir gan wenynwyr ledled y byd. Bydd yn anodd dod o hyd i rywrai tebyg i Pam eto. Cyhoeddwyd marwolaeth sydyn Brinley ap Dewi Rowlands ym mis Rhagfyr. Roedd Dewi'n Ysgrifennydd Cyffredinol CGC am 20 mlynedd a gwasanaethodd ar sawl pwyllgor CGC cyn ymgymryd â rôl ysgrifenyddol. Roedd yn aelod amlwg iawn o'r Gymdeithas am nifer o flynyddoedd. Hoffai CGC estyn eu cydymdeimlad i deuluoedd a ffrindiau'r holl aelodau sydd wedi marw yn ystod 2015.

Gwefan: Lansiwyd Gwefan newydd CGC ddiwedd mis Mawrth 2015. Hoffai'r Ymddiriedolwyr ddiolch i Grant Williams, y Gwe Feistr, am ei holl waith ar y wefan a'i longyfarch ar y canlyniadau. Anogir aelodau CGC i roi adborth ac awgrymiadau o ran datblygu'r wefan. Mae trafodaethau ar y gweill er mwyn edrych ar roi lle hysbysebu masnachol ar y wefan.

Cylchgrawn Gwenynwyr Cymru: Ym mis Chwefror penodwyd Grant Williams i olynu Sue Closs fel Golygydd CGC ar ôl rhifyn Gwanwyn 2015. Hoffem ddiolch i Sue am ei chyfnod fel Golygydd ac i groesawu Grant. Prynwyd cyfrifiadur newydd at ddefnydd y Golygydd ac ym mis Tachwedd cytunwyd i newid y cylchgrawn i fformat A4. Fel rhan o'r adolygiad hwn newidiwyd y cwmni argraffu a arferai gyhoeddi'r cylchgrawn am resymau economaidd.

Cyhoeddiadau: Ysgrifennwyd y llyfryn 'Canllaw'r Wenynfa i Reoli Heidiau' gan Wally Shaw, Swyddog Technegol CGC ac fe'i dosbarthwyd i holl aelodau CGC gyda rhifyn Gwanwyn 2015 Gwenynwyr Cymru. Bydd copïau ychwanegol ar gael i Aelod-Gymdeithasau yng nghyfarfodydd y Cyngor.

Logo CGC: Trefnir cystadleuaeth yn 2016 i ddylunio logo newydd i CGC. Cyhoeddir manylion yn gynnar yn y flwyddyn.

Colledion y Gaeaf: Cafodd aelodau eu dewis ar hap a'u hannog i gymryd rhan yn Arolwg Colli Cytrefi Ewrop (European Colony Loss Survey - COLOSS) ar gyfer gaeaf 2014/15. Roedd yr ymateb yn isel (41%) ac ar gyfer 2015/16 bydd y broses ddewis yn cael ei haddasu er mwyn ceisio cael gwell ymateb. Mae'r canlyniad cychwynnol gan COLOSS yn cofnodi i Gymru gael colledion 'sylweddol is na'r cyfartaledd', o gymharu â gwledydd eraill Ewrop, yn ystod gaeaf 2014/15.

Nawdd: Ystyrir Nawdd CGC ar gyfer cynadleddau a mathau tebyg o ddigwyddiadau ynghylch gwenyna sy'n cael eu cynnal yng Nghymru a'u hanelu at gynulleidfa eang.

Yr Archif: Rai blynyddoedd yn ôl cafodd Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, ei difrodi gan dân a dinistriwyd holl ddeunydd archif CGC a oedd wedi'i gadw yno. I'r dyfodol mae Ian Hubbuck wedi cytuno i sefydlu a chynnal a chadw archif electronig a gaiff ei chadw mewn sawl man gwahanol er mwyn sicrhau diogelwch. Mae John Taylor a Wil Griffiths wedi bod mor garedig â gwirfoddoli i

ddod o hyd i ddeunydd i ailadeiladu archif o weithgareddau CGC cyn 2005. Gobeithiwn y bydd unrhyw un sydd â dogfennau perthnasol yn eu darparu er mwyn inni eu copïo.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi gweithio gyda nifer o asiantaethau allanol yn ystod 2015 i sicrhau bod gwenynwyr Cymru'n cael gwybodaeth lawn ac yn cael eu cefnogi nid yn unig yn lleol ond hefyd ar lefel Cymru, y DU ac Ewrop. Rhoddir rhestr o'r cyfarfodydd allanol a fynychwyd gan CGC isod.

Cynllun Gwenyn Iach – Cymru: Gwahoddwyd CGC i gwrdd ag aelodau o staff DEFRA a Llywodraeth Cymru i drafod Cynllun Gweithredu Gwenyn Iach. Gwnaed hyn ar 6 Mawrth 2015 drwy gynhadledd ffôn a chynrychiolwyd CGC gan Jenny Shaw, Wally Shaw a John Bowles.

Roedd y drafodaeth yn cynnwys pynciau a bennwyd gan yr UE ynglŷn â gwenyna iach a'r posibilrwydd o gofrestru gwenynwyr a/neu gychod.

Cytunon ni i gefnogi Beebase ac i annog ein haelodau i wneud yr un fath, er nad oes gan bob un ohonynt fynediad i'r rhyngrwyd.

Rhoddon ni wybod iddynt am ein cynlluniau i:-

- foderneiddio ein gwefan er mwyn rhoi mwy o arweiniad yn y ddwy iaith;
- ailstrwythuro ein cymorth hyfforddi drwy Bwyllgor Dysgu a Datblygu newydd.
- hyrwyddo cadw gwenyn wedi'u haddasu i'r amodau lleol a bod yn hunangynhaliol, fel bod llai o angen mewnforio pecynnau, cnewyll neu freninesau.
- rhoi cymorth i'r Uned Wenyn Genedlaethol (NBU) a'r Arolygwyr Gwenyn yng Nghymru yr oedd y rhan fwyaf o wenynwyr yn gwerthfawrogi eu gwaith a'u harweiniad.

Cytunodd DEFRA yn eu tro i:-

- addasu rhai o'r geiriau yn y cyfieithiad o ddogfen yr UE er mwyn egluro ystyron
- gofyn i'r NBU greu pecyn sleidiau generig er mwyn cynorthwyo hyfforddiant
- cydlynu â CGC i wneud y defnydd gorau o'r wybodaeth sydd ar Beebase

Fforwm Ymgynghorol Iechyd Gwenyn (*Bee Health Advisory Forum*) (y DU): Bu pedwar cyfarfod eleni a mynychodd y Swyddog Technegol a/neu John Bowles (Ymddiriedolwr) y rhain ar ran CGC. Mae Cronfa Wenynyddol Ewrop (*European Apicultural Fund*) wedi bod yn bwnc cyson yn y cyfarfodydd hyn yn 2015. Trafodwyd yr angen am ddarparu ystadegau cywir am niferoedd cytrefi yn y DU eisoes yn nau Gyfarfod y Cyngor yn 2015. Y pynciau eraill a drafodwyd neu y cafwyd cyflwyniadau yn eu cylch oedd Chwilen Fach y Cwch, y Gacynen Asiaidd a'r rheoliadau ynglŷn â meddyginiaethau gwenyn mêl (gan y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol). Cynhelir cyfarfod nesaf y Fforwm ddechrau mis Medi 2016.

Cronfa Wenynyddol Ewrop: Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn inni roi sylwadau ynghylch ein barn am sut mae'r grant tuag at Wenyna o'r UE wedi cael ei wario yn y gorffennol.

Mae'r rhan fwyaf yn ariannu gweithgareddau'r Uned Wenyn Genedlaethol yng Nghymru. Ein hymateb oedd ein bod yn gwerthfawrogi rôl yr Uned Wenyn Genedlaethol yn eu gwaith i ddod o hyd i glefydau a chyfyngu ar eu lledaeniad, yn ogystal â'u gwaith addysgol, yn ffurfiol mewn gweithdai am glefydau a hefyd mewn sgyrsiau a roddir wrth ochr cychod gyda'n haelodau.

Nifer y cychod a reolir mewn gwledydd unigol sy'n pennu faint o arian a ddaw o'r UE. Codwyd y mater sut rydym yn dangos yn foddhaol i'r UE fod gan y DU a Chymru'n benodol nifer penodol o gychod. Ein hymateb oedd ein bod yn cefnogi'r cyfrif peilot sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ar draws y DU gan ddefnyddio Beebase wedi'i ddiweddaru (gobeithio) a meini prawf eraill gan gynnwys nifer aelodau cymdeithasau. Fodd bynnag, roeddem yn teimlo y byddai datganiad blynyddol gan ddefnyddio'r cymdeithasau cenedlaethol a'u haelod-gymdeithasau'n fwy tebygol o fod yn effeithiol. Cyfanswm cenedlaethol dienw'n unig y byddai unrhyw ddatganiad gan CGC yn ei gynnwys. Bydd yr UE yn mynnu cael dull trylwyr a chaiff system wirfoddol ei ffafrio'n llawer mwy na chyfrifiad gorfodol a phetai hynny'n cael ei gyflwyno byddai'r costau fwy na thebyg yn cymryd y rhan fwyaf o grant yr UE.

"Nid yw mochyn yn pesgi wrth ei bwyso!"

Tasglu Pryfed Peillio Cymru: Mae CGC yn dal i fod yn aelod gweithgar o'r Tasglu ac yn lobïo dros hyrwyddo stociau sydd wedi'u haddasu i amodau lleol a mesurau i leihau neu, os yw'n bosibl, atal mewnforio gwenyn tramor i Gymru a'r peryglon o ganlyniad o ran plâu/heintiau. Un o brif ddaliadau'r Cynllun Gweithredu Pryfed Peillio yw sicrhau bod stociau gwenyn mêl yng Nghymru yn iach. Nod llawer o'r prosiectau y mae'r tasglu yn eu hannog yw gwneud i Gymru fod yn amgylchedd mwy cyfeillgar i bryfed peillio.

CONBA: Gyda'i gilydd mae Cymdeithasau Gwenyna Cymru, Lloegr, yr Alban ac Iwerddon yn ffurfio CONBA sy'n lobïo'r UE ynghylch diddordebau gwenyna'r cyd-aelodau.

NDB: Y Diploma Cenedlaethol mewn Gwenyna yw'r cymhwyster gwenyna academaidd ffurfiol uchaf sydd ar gael yn y DU. Yn ogystal â dyfarnu'r Diploma mae'r NDB hefyd yn rhedeg cyrsiau byrion ar bynciau penodol sydd o ddiddordeb i rai o'n haelodau. Mae CGC yn gweithio i annog NDB i redeg cyrsiau byrion yng Nghymru.

Cyfarfodydd Mewnol CGC

6 Chwe – Y Tîm Rheoli – Ymddiriedolwyr (Dolgellau)
7 Mawrth – CBC, Cyfarfod y Cyngor a chyfarfod Pwyllgor y Cynulliad – Clwb Golff Penrhos
8 Ebrill – Tîm Rheoli – Ymddiriedolwyr (Cwm Elan)
11 Mai – Pwyllgor Dysgu a Datblygu, Pontarfynach, Aberystwyth
10 Awst – Cyfarfod Arbennig o'r Ymddiriedolwyr, Dolgellau
14 Awst – Pwyllgor y Cynulliad, Llanbister
11 Medi – Y Tîm Rheoli, Llanidloes
7 Tachwedd - CCA a Chyfarfod y Cyngor, Cwm Elan
28 Tachwedd – Pwyllgor Digwyddiadau (gan gynnwys y Cynulliad), Machynlleth
7 Rhagfyr – Y Tîm Rheoli, Dolgellau

Cynrychiolaeth CGC mewn Cyfarfodydd Allanol – 2015:
Jenny Shaw (J.S.), John Bowles (J.B.), Wally Shaw (W.S.), Trisha Marlow (T.M.), John Sweet (J.Sw.)

6 Mawrth – Llywodraeth Cymru ynghylch Cynllun Gwenyn Iach drwy gynhadledd ffôn (W.S., J.B. a J.S.)
30 Mawrth – Fforwm Ymgynghorol Iechyd Gwenyn: Llundain (W.S. a J.B.)
16 Ebrill – CONBA: Harper Adams (J.B.)
5 Mai – Grantiau Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru: Caerdydd (J.Sw.)
3 Mehefin – Tasglu Pryfed Peillio Cymru: Y Drenewydd (J.S.)
18 Mehefin – Fforwm Ymgynghorol Iechyd Gwenyn: Efrog (W.S.)
24 Medi – Fforwm Ymgynghorol Iechyd Gwenyn: Llundain (J.B.)

28 Hydref – CONBA: Weybridge, Surrey (J.S. & W.S.)
30 Hydref – NDB: Weybridge, Surrey (T.M.)
4 Rhagfyr – Tasglu Pryfed Peillio Cymru: Y Drenewydd (J.S.)
10 Rhagfyr – Fforwm Ymgynghorol Iechyd Gwenyn: Llundain (J.B. a W.S.)

ADRODDIADAU

Adroddiad y Pwyllgor Dysgu a Datblygu

Aelodau'r Pwyllgor: Andy Ryan (Cadeirydd), Lynfa Davies (Ysgrifennydd Arholiadau), Wally Shaw (Swyddog Technegol), Frank Gellatly (RBI), Trisha Marlow, Stephen Davies, Margaret Jones (ymddiswyddodd 14.08.15).

Mae cylch gorchwyl bras y Pwyllgor hwn yn cynnwys dysgu ar bob lefel a thrwy bob modd. O ran y llwybr arholiadau ffurfiol, cytunwyd ar ffyrdd o fynd i'r afael â'r prinder aseswyr sylfaenol a'r prinder ymgeiswyr sy'n sefyll yr asesiad. Cyflwynir fformat a maes llafur newydd ar gyfer yr Asesiad Hwsmonaeth Sylfaenol ar gyfer 2016.

Mae gwaith ar y gweill i ddarparu amlinelliad bras ar gyfer cynnwys cyrsiau hyfforddi gwenynwyr ar lefel dechreuwyr a datblygwyr. Yn rhan o'r fenter hon, edrychir ar ffyrdd o'i gwneud hi'n haws i bersonél hyfforddi'r gymdeithas gyfnewid syniadau a gwybodaeth. Un cynnig sy'n cael ei ystyried yw Symposiwm i Swyddogion Hyfforddi / Addysg.

Mae amryw o daflenni gwybodaeth a llyfrynnau ychwanegol yn cael eu dylunio.

Adroddiad Arholiadau ac Asesiadau

Asesiadau Sylfaenol: Daliodd CGC ati i hyrwyddo a chynnig Asesiadau Sylfaenol i'r aelodau yn ystod 2015 a derbyniwyd 38 cais. O'r rhain, cafodd 37 eu cwblhau gyda'r asesiad dros ben yn cael ei gadw tan 2016. Mae'r rhestr ganlynol yn dangos nifer yr ymgeiswyr o bob cymdeithas.

Ynys Môn	2
De Clwyd	6
Llanbedr Pont Steffan	2
Sir Gaerfyrddin	1
Meirionnydd	5
Abertawe	12
Fflint a'r Cylch	4
Caerdydd	4
Aberystwyth	1

50% yw'r marc pasio ar gyfer yr Asesiad Sylfaenol ac mae'r wybodaeth ganlynol yn dangos cyfran y bobl sy'n pasio yn y bandiau canlynol;

GRADD	Nifer yr ymgeiswyr
50-60%	2
61- 80%	23
81-100%	12

Gwnaed y rhan fwyaf o'r asesiadau yng ngwenynfeydd y Cymdeithasau fel bod yr aseswyr yn gallu arholi mwy nag un ymgeisydd ym mhob sesiwn. Dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o drefnu Asesiadau Sylfaenol ac mae CGC yn ddiolchgar i Reolwyr Gwenynfeydd y Cymdeithasau am eu help wrth drefnu'r diwrnodau asesu hyn.

Hefyd rydym wedi llwyddo i hyfforddi 4 aseswr newydd eleni, fel bod 15 o aseswyr i gyd. Diolch yn fawr i bob un o'r rhai sy'n eu rhoi eu hunain ar gael i asesu ymgeiswyr.

Modiwlau: Ym mis Mawrth 2015 newidiodd CGC i ddefnyddio gwasanaethau BBKA o ran darparu modiwlau ac arholiadau ymarferol uwch. Mae hyn yn gofyn i bob ymgeisydd dalu ffi aelodaeth flynyddol ar gyfer arholiadau i BBKA a gafodd ei thalu gan CGC yn ystod 2015. Roedd 10 ymgeisydd yr oedd arnynt angen yr aelodaeth hon ar gyfer 2015 ar gost o £9 yr ymgeisydd. Mae'r wybodaeth ganlynol yn dangos nifer y modiwlau a'r arholiadau ymarferol uwch a safwyd yn ystod 2015 (ym mis Mawrth a mis Tachwedd).

Arholiad	Nifer yr ymgeiswyr	Nifer y rhai a basiodd
Modiwl 1	2	1
Modiwl 2	2	2
Modiwl 3	1	0
Modiwl 5	3	1
Modiwl 8	2	0
Hwsmonaeth Uwch	3	1

Ar gyfer yr arholiadau modiwl mae hyn yn rhoi cyfradd basio gyffredinol o 40% (safwyd 4 o 10 modiwl). Mae hwn yn ganlyniad siomedig o isel ac mae'n dangos bod angen paratoi'n dda cyn ymgymryd â'r asesiadau hyn.

Adroddiad y Pwyllgor Digwyddiadau

Aelodau'r pwyllgor - Andy Ryan (Cadeirydd), Jill Wheeler (Ysgrifennydd), Graham Wheeler, Fred Eckton, Wally Shaw, Grant Williams. Swyddog Cyhoeddusrwydd

Cafodd **Cynulliad 2015** dderbyniad da gydag ychydig o fân broblemau'n unig; Larwm Tân, dim mynediad ym mhobman i'r Ddolen glyw, dim Cymraeg ar glawr y rhaglen. Gwnaeth y cynulliad weddill o tua £2410. Mynychodd 530, gyda 163 wedi talu ymlaen llaw. Helpodd tîm o 37 i stiwardio'r digwyddiad.

Yn yr **Ŵyl Tyddyn a Gardd** ym mis Mai, roedd gan CGC arddangosfa fwy amlwg. Dyluniodd Graham Wheeler stondin drawiadol a phrynodd CGC 8 baner fawr i hyrwyddo'r hyn rydym yn ei wneud dros Wenynwyr. Gwnaeth hyn i'r arddangosfa edrych yn broffesiynol a denodd lawer o sylw. Rhannon ni'r arddangosfa hon gydag Arolygwyr Tymhorol a bu 18 stiward yn gyfrifol am y stondin dros y ddau ddiwrnod.

Sioe Frenhinol Cymru gwelwyd arddangosfa fach gyda'r Sioe Fêl yn Neuadd De Morgannwg, gyda Wally Shaw yn gyfrifol amdani, a menter ar y cyd gyda Coed Cadw allan ar ardal y maes gwledig. Darparodd Pam a Bob Mendy gwch arsylwi am y 4 diwrnod i gyd, gyda Wally a Jenny yn mynd â nhw i ffwrdd i hedfan bob noswaith. Dros y 4 diwrnod helpodd 33 aelod i stiwardio'r arddangosfa maes.

Yn ystod y flwyddyn mae'r pwyllgor digwyddiadau wedi bod yn edrych ar fan arall i gynnal Cynulliad 2016. Ar ôl edrych ar amrywiaeth o neuaddau ar safle'r Sioe Frenhinol yn Llanelwedd, penderfynwyd defnyddio'r Hen Neuadd Fwyd ar gyfer y masnachwyr a Phafiliwn Trefaldwyn ar gyfer y darlithiau. Mae hyn yn golygu bod modd cael llawer mwy o gynulleidfa ar gyfer y darlithiau heb gynyddu'r costau'n uwch na'r incwm sy'n cael ei ragamcanu.

Adroddiad y Golygydd:

Eleni bu newidiadau mawr i Gwenynwyr Cymru. Yn dilyn proses o ymgynghori ac ymchwil, cymeradwywyd cynnig i newid o gyhoeddiad A5 i gylchgrawn fformat A4. Rhifyn y gaeaf oedd ein cynnig cyntaf yn y gosodiad diwygiedig, a dim ond adborth cadarnhaol y mae wedi'i gael. Ein bwriad yw adeiladu ar y cyfle newydd cyffrous hwn i droi'r cylchgrawn yn ffenestr i waith CGC ac i barhau i annog dysgu ac i roi rhagor o gymorth i wenyna o fewn Cymru a'r tu hwnt. Mae'r cylchrediad wedi bod tua 1,800 copi'r rhifyn, ac mae cymorth parhaus hysbysebwyr wedi bod yn help sylweddol o ran talu rywfaint am y costau cynhyrchu.

Mae'r cylchgrawn wedi elwa'n fawr o gael cyfraniadau rheolaidd gan Wally Shaw a Frank Gellatly ynghyd â sylwadau 'Grumpy Old Beekeeper', wedi'u rhoi o safbwynt gwybodaeth gydag arlliw o hiwmor. Rydyn wedi bod yn ffodus iawn o ran derbyn erthyglau ar amrywiaeth eang o bynciau gan aelodau'r cymdeithasau, fel bod trosolwg eang o wenyna yng Nghymru.

Mae cymorth parhaus gan Ian Hubbuck, sy'n cydlynu â'n dosbarthwyr, wedi sicrhau bod y cylchgrawn yn cael ei ddosbarthu'n effeithiol a rhoddwyd croeso i gymorth golygyddol gan bob aelod o'r pwyllgor rheoli. Wrth ffurfio tîm golygyddol newydd, ar ffurf Graham Wheeler ac Andy Ryan, mae'n argoeli y caiff y cynhyrchu ei symleiddio i'r dyfodol a bydd cymorth wrth ddod o hyd i gynnwys perthnasol.

Pwyllgor golygyddol: Rwy'n ystyried mai swyddogaeth bwysig y pwyllgor golygyddol yw amlygu tueddiadau ac eitemau/themâu newyddion priodol er mwyn cadw cynnwys y cylchgrawn mor gyfredol ag sy'n bosibl, tra caiff egwyddorion CGC eu cynnal ar yr un pryd. Byddwn i'n gobeithio, wrth i eitemau perthnasol ddod i glawr, y bydden nhw'n cael eu hanfon ymlaen ataf i'w hystyried ac y byddai pobl yn gwneud awgrymiadau er mwyn annog cysylltiadau ychwanegol i anfon eitemau ymlaen, ac felly caiff rhwydwaith mwy sylweddol o gyfranwyr ei adeiladu.

Adroddiad y Gwe Feistr:

Mae'r wefan wedi parhau i ddenu nifer cynyddol o ymwelwyr yn ystod 2015 o ganlyniad i argymhellion o wefannau eraill, cyfeiriadau gan beiriannau chwilio ac 'ar dafod leferydd'.

Yn y 6 mis diwethaf rydym wedi cael dros 40,000 (tua 220 y dydd) o ymwelwyr gan wneud cyfanswm o 315,000 ymweliad (1,750 y dydd, h.y. tua 8 clic tudalen yr ymwelydd), er bod ffigurau'r ymweliadau'n cynnwys pryfed cop mynegeio (*indexing spiders*) ac ymweliadau wedi'u hawtomeiddio, mae'n dal i ddangos nifer o ddefnyddwyr iach ac sydd ar gynnydd.

Gobeithir y bydd 2016 yn gweld datblygiad pellach ym mhob maes o'n presenoldeb ar y we, yn enwedig y cynnwys Cymraeg ar y wefan.

Swyddog Cyhoeddusrwydd

Er inni wneud sawl apêl i recriwtio Swyddog Cyhoeddusrwydd a'r Wasg i CGC ers CCC 2014 ni chafwyd unrhyw wirfoddolwyr. Mae'r Ymddiriedolwyr yn ymateb i unrhyw ymholiadau gan y wasg ond nid oes unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd arall wedi cael ei gynhyrchu.

Adroddiad y Swyddog Technegol

Gwasanaeth Archwilio Gwenyn: Hyd yma, mae'r gwaith o aildrefnu'r Gwasanaeth Archwilio Gwenyn (BIS), lle symudwyd cyfrifoldeb o'r Uned Wenyn Genedlaethol (NBU) i'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA), wedi bod yn ddidrafferth o ran gwenynwr – dim newid i'r arfer. Mae swydd newydd wedi cael ei chreu'n ddiweddar yn NBU i fod yn gyswllt rhyngddyn nhw ac APHA a'r rhanddeiliaid (hynny yw, chi a fi). Nigel Sessions yw'r penodai ar hyn o bryd, cyn hyn roedd yn Arolygydd Gwenyn Rhanbarthol yn Ne Lloegr felly mae ganddo brofiad uniongyrchol o waith BIS.

Plwm mewn Mêl: Nid oes rhagor o sôn wedi bod am y mater hwn (a gododd yng Ngweriniaeth Iwerddon) a adroddwyd yn 2014. Ond, dylid pwysleisio bod defnyddio echdynwyr (*extractors*) tunplat wedi bod yn anghyfreithlon ers tro (oherwydd yr uniadau wedi'u sodro) ac mai dur gwrthstaen neu blastig at ddefnydd bwyd yn unig y dylid eu defnyddio mewn unrhyw gam o echdynnu, storio a phrosesu mêl.

Chwilen Fach y Cwch (Small Hive Beetle/SHB): Yn ystod misoedd cyntaf 2015 roedd hi'n edrych fel petai'r ymdrechion i gael gwared ar y chwilen hon yn Ne'r Eidal wedi bod yn llwyddiannus – doedd dim sôn am y chwilen mewn cychod gwenyn yn yr ardal a oedd wedi'i heintio. Ond, ganol mis Medi, daethpwyd o hyd i'r chwilen mewn nifer o wenynfeydd ac roedd bridio wedi digwydd. Nid oes neb yn deall sut llwyddodd y chwilen i beidio â chael ei gweld yn gynharach yn y flwyddyn ond yr esboniad mwyaf tebygol yw bod cronfa o chwilod mewn cytrefi gwyllt neu mewn nythod cacwn. Mae'n ymddangos yn debygol y bydd yr ymdrechion i gael gwared ar chwilen fach y cwch yn dod i ben yn y dyfodol agos ac yn lle hyn bydd strategaeth ynysu. Mae adroddiad diweddar a gyhoeddwyd gan Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA) yn honni y byddai Chwilen Fach y Cwch yn lledaenu'n eithaf araf heb help dynol – ond yn y byd go iawn, pa mor debygol ydyn ni o fod mor ddisgybledig â hynny? Yn yr adroddiad mae llawer o wybodaeth am sut gellid lleihau'r perygl o ledaenu ond symud gwenyn byw yw'r prif berygl o hyd. Gellir defnyddio dulliau diheintio fel rhewi a disychu ar gynnyrch ac offer cychod ond nid ar wenyn, sy'n gorfod dibynnu ar archwilio, a chydnabyddir na ellir byth wneud i hyn fod 100% yn ddiogel. Bydd y Sianel yn atal chwilen fach y cwch rhag dod i'r DU drwy ledaenu naturiol felly mae'n eithaf amlwg beth y dylen ni ei wneud; lleihau'r gwenyn byw sy'n cael eu mewnforio'n raddol er mwyn dod yn hollol hunangynhaliol. **D.S. -** Mae adroddiad EFSA yn honni bod y ffaith nad oes gan rai aelod-wladwriaethau system gofrestru cychod yn debygol o'i gwneud hi'n anos i reoli lledaeniad chwilen fach y cwch. Felly gall hyn fod yn bwysau ychwanegol i gyflwyno cofrestru gwenynwyr/cychod gorfodol yn y DU – rhywbeth sydd wedi cael ei wrthwynebu'n ddygn dros y 10 mlynedd diwethaf.

Y Gacynen Asiaidd: Mae'r gacynen hon yn fygythiad llawer mwy agos (a byddai llawer yn honni ei bod yn fygythiad llawer mwy difrifol) na chwilen fach y cwch. Yn anffodus ni fydd y Sianel yn rhwystr iddi ledaenu'n naturiol ond ar nodyn cadarnhaol, oherwydd ei bioleg a'i hamlygrwydd, mae'n llawer mwy tebygol y gallwn gael gwared yn llwyr ar y gacynen Asiaidd os caiff ei dal yn gynnar. Mae darlith

ar y gacynen Asiaidd gan Mike Brown o'r Uned Wenyn Genedlaethol wedi'i chynllunio ar gyfer Cynulliad CGC 2016. Mae cychod gwenyn mor ddeniadol i'r gacynen Asiaidd fel mai bod yn wyliadwrus yw'r gobaith gorau o ddod o hyd iddi'n gynnar – felly mae angen bod yn ymwybodol o'r hyn i edrych amdano a'r hyn i'w wneud os gwelwn ni unrhyw beth amheus.

Asid Ocsalig: Bellach mae ffynhonnell gofrestredig o asid ocsalig i'w ddefnyddio er mwyn rheoli Varroa. API-Bioxal yw enw'r cynnyrch ac mae'n cael ei ddarparu mewn pecynnau mewn 3 maint (35g, 175g a 350g) sy'n cael eu hychwanegu at y swm priodol o syryp siwgr 1:1 (wedi'i ddarparu gan y defnyddiwr). Gwaetha'r modd, rysáit sy'n cael ei ddefnyddio yn ardal y Môr Canoldir yw'r un sydd wedi'i roi gyda'r cynnyrch, ac mae'n llai addas i hinsawdd dymherus oer; mae'r hydoddiant yn rhy gryf (4.2% w/v asid ocsalig neu 6.0% asid ocsalig wedi'i ddadhydradu). Ar y cryfder hwn mae perygl iddo ladd rhai gwenyn heb ladd mwy o Varroa. Yn ôl ymchwil, 3.2% AO neu 4.5% AOD yw'r hydoddiant cywir i'n hinsawdd ni. Mae'r Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol wedi cael gwybod a gobeithio y caiff y cyfarwyddiadau eu cywiro yn y dyfodol agos. Y sefyllfa bresennol yw mai API-Bioxal yw'r unig ffurf gyfreithlon ar asid ocsalig y gellir ei ddefnyddio i reoli Varroa. Ond, mae 'ardal lwyd' o hyd ynghylch defnyddio asid ocsalig a byddai'n ymddangos, os nad yw'n dweud ar y botel y gellir defnyddio'r cynnwys i reoli Varroa yna ei fod, gan nad yw'n dweud hynny, yn gyfreithiol. Os nad oes unrhyw honiad, nid yw'n feddyginiaeth bellach ac nid yw'n dod o dan unrhyw reoliadau. Mae'r 'glanhawyr cychod' amrywiol (a chynnyrch tebyg) sydd ar y farchnad – sydd bellach â labeli a hysbysebion wedi newid – hefyd yn cwympo'r tu allan i'r rheoliadau cyfredol sy'n rheoli cynnyrch meddyginiaethol.

Cyhoeddiadau Technegol CGC: Mae'r cyflenwadau o lyfryn CGC/LlC o'r enw ***'Mae celloedd brenhines yn fy nghwch – beth dylwn ei wneud?*** a gyhoeddwyd yn 2010 bellach wedi dod i ben ac mae 2[il] Argraffiad wedi'i addasu fymryn ar y gweill a bydd ar gael yn barod i dymor 2016.

Adroddiad aelodaeth

Gweler y ddogfen wedi'i hatodi i gael manylion aelodaeth CGC yn 2015.

Datganiad: Mae'r Ymddiriedolwyr yn datgan iddynt gymeradwyo adroddiad yr ymddiriedolwyr uchod

Llofnodwyd ar ran ymddiriedolwyr yr elusen

Llofnod:

Enw llawn: Jennifer Mary Shaw

Swydd: Cadeirydd

Dyddiad: 25 Ionawr 2016

Aelodaeth CGC - Y flwyddyn yn diweddu 2015

Cymdeithas	2014	2015		
	Cyfanswm Aelodau	Cyfanswm Aelodau	Aelodau Newydd	Aelodau wedi Ymddeol
Caerdydd, y Fro a'r Cymoedd (5	201	216	48	33
Conwy (8)	150	162	38	26
Sir Benfro (15)	130	140	47	37
Pen-y-bont (4)	123	136	33	20
Trefaldwyn (14)	133	127	21	27
De Clwyd (16)	135	120	14	29
Ynys Môn (2)	98	112	28	14
Abertawe (17)	101	110	28	19
Brycheiniog a Maesyfed (3)	94	108	33	19
Fflint a'r Cylch(10)	70	79	21	12
Gorllewin Morgannwg (19)	68	78	23	13
Caerfyrddin (6)	81	76	24	29
Meirionnydd (13)	56	68	28	16
Llanbedr P.S. (11)	65	65	15	15
Dwyrain Caerfyrddin (9)	55	63	23	15
Aberystwyth (1)	51	61	18	8
Glannau Teifi (18)	70	55	23	38
Llyn ac Eifionydd (12)	51	36	6	21
Ceredigion (7)	24	28	5	1
Cyfanswm Aelodau'r Cymdeithasau		**1840**		



Eraill	2014	2015		
	Cyfanswm Aelodau	Cyfanswm Aelodau	Aelodau Newydd	Aelodau wedi Ymddeol
Hysbysebwyr	21	21	0	0
Aelodau Unigol	21	23	2	0
Aelodau Anrhydeddus	9	8	0	1
Aelodau Tramor	5	5	0	0
Ernesau Cyfreithiol	3	3	0	0
Hyrwyddwyr	2	3	0	0
Cyfanswm aelodau eraill		**63**		



WBKA total members	**1903**

Author: I Hubbuck , Membership secretary

20 Jan 2016